

# rydym yn recriwtio


## uchafbwyntiau y swydd












# Gwesteiwr Tag - Ninja Tag

## Gwybodaeth Allweddol

**Cyflog**: £12.26 yr awr

**Oriau**: Oriau llawn amser, rhan amser ac achlysurol ar gael

**Lleoliad**: SC2

## Ynglŷn â’r Swydd

Mae Ninja Tag yn profi ffitrwydd, sgiliau a dewrder plant ac oedolion i’r eithaf, tra bod y Chwarae Antur â thema Jwrasig yn gyfle i’r rhai bach archwilio’r anialwch.

Fel Gwesteiwr TAG, byddwch yn sicrhau bod ein cwsmeriaid yn cael yr amser gorau ar ein cwrs Ninja TAG gwych, a’u bod yn cadw’n ddiogel ar yr un pryd.

Byddwch yn gyfrifol am dderbyn archebion, gwneud i bobl deimlo bod croeso iddynt a helpu gyda chwestiynau cyffredinol gan gwsmeriaid ynghylch y safle. Mae llawn cymaint o hwyl i oedolion ag ar gyfer plant ar y cwrs Ninja TAG, felly mae cwsmeriaid o bob oedran yn ymweld â ni. Rydym hefyd yn cynnal llawer o bartion pen-blwydd i blant, a byddech yn gyfrifol am sicrhau eu bod nhw’n cael amser da - cofiwch nad oes yr un parti pen-blwydd yn gyflawn heb ganu Pen-blwydd Hapus, felly bydd angen i chi fod yn hyderus i arwain hyn.

Mae’ch rôl yn bwysig i sicrhau bod y cwsmer yn teimlo’n hapus gyda’u hymweliad, a dyma’r gwahaniaeth weithiau i sicrhau bod rhywun yn dod yn ôl ac yn ein hargymell i eraill ai peidio.

Rydym yn ymfalchïo yn ein cyfleusterau a’r amgylchedd rydym yn ei gynnig i’n cwsmeriaid, felly byddem yn disgwyl i chi wneud hynny hefyd, gan sicrhau ei fod yn lân, yn daclus ac yn ddiogel i bawb ei ddefnyddio bob amser.

**Mae'r pecyn yma ar gael yn y Gymraeg hefyd / This pack is also available in Welsh**



# Gwesteiwr Tag - Ninja Tag

## Amdanoch Chi

Byddwch yn unigolyn hyderus a chyfeillgar, gyda sgiliau ymdrin â phobl ardderchog. Mae ein cwsmeriaid yn bwysig iawn i ni, felly mae arnom angen rhywun sy'n gallu tawelu meddyliau pobl, ac sydd ag awydd i sicrhau bod profiad pawb yn un gwych bob amser.

Bydd angen i chi fod yn hyderus yn gweithio gyda phlant ac oedolion, a gallu newid eich ffordd i weddu i bawb.

Mae'n bwysig iawn bod pawb yn ddiogel bob amser, felly bydd angen i chi fod yn hyderus o ran cymryd camau i atal unrhyw ymddygiad a allai roi eraill mewn perygl, mewn modd cyfeillgar a chadarn.

Yn ddelfrydol, bydd gennych rywfaint o brofiad o weithio gyda chwsmeriaid, ond mae gennym fwy o ddiddordeb yn eich personoliaeth. Felly, os ydych chi'n unigolyn â natur gynnes, gyfeillgar a chroesawus, yna rydym ni'n chwilio amdanoch chi!

Os ydych chi'n unigolyn brwdfrydig sy'n awyddus i helpu eraill a gweithio i gwmni hynod lwyddiannus sy'n datblygu'n gyflym, efallai mai dyma'r cyfle yr ydych wedi bod yn aros amdano.



# Gwesteiwr Tag - Ninja Tag

## Amdanom Ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae HSDdCyf wedi datblygu portffolio o gyfleusterau sy’n arwain y sector, gan gynnwys 7 cyfleuster ffitrwydd premiwm, 7 darpariaeth bwyd a diod unigryw, 2 atyniad anhygoel a theatr syfrdanol â 1,000 o seddi.

Mae tîm HSDd yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydyn ni'n gweithio i athroniaeth 'un tîm, un cyfrif banc' - rydyn ni i gyd yn un tîm, pa waeth ym mha safle rydych chi wedi'ch lleoli. Gyda'n gilydd rydyn ni i gyd yn cyfrannu at wneud HSDdCyf yn llwyddiannus

## Ein Gwerthoedd

- Uchelgais a Thwf
- Ymddiriedolaeth ac Uniondeb
- Rhagoriaeth a Gwydnwch
- Balchder ac Angerdd



# Buddion Staff

Mae ein gweithlu o'r pwys mwyaf i ni ac rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Mae gan holl weithwyr HSDd hawl i amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- Aelodaeth campfa staff HSDd gostyngedig
- Cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol
- Gwyliau blynyddol yn dechrau ar 26 diwrnod + gwyliau banc (gyda'r cyfle i ennill mwy)
- Cefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiannau gyrfa ac secondiadau
- Amrywiaeth o bolisïau teulu-gyfeillgar i gefnogi'ch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

**Lleoliad**: SC2, West Parade, Rhyl, LL18 1BF

**Dyddiad Cau**: 24.03.25

**Ymgeisiwch ar ein gwefan**: https://denbighshireleisure.co.uk/cy/gyrfaoedd/